# Prosiectau Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

24 Gorffennaf 2015

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 29 Mehefin, pan wnaethoch ofyn:

1) *Hoffwn wybod a oes gan Aelodau'r Cynulliad fynediad at arian cyhoeddus ar gyfer prosiectau ymchwil penodol?*
2) *Os felly, faint o arian sydd ar gael i bob Aelod a phwy all gael ei dalu i wneud y gwaith hwn ar eu cyfer?*
3) *Hoffwn wybod pa Aelodau'r Cynulliad sydd wedi defnyddio'r gronfa hyd yma, a rhestr o'r sefydliadau neu'r unigolion hynny sydd wedi cael eu talu, ynghyd ag enw'r prosiect ymchwil y cawsant eu talu i ymgymryd ag ef.*

1) *Hoffwn wybod a oes gan Aelodau Cynulliad fynediad at arian cyhoeddus ar gyfer prosiectau ymchwil penodol?*
2) *Os felly, faint o arian sydd ar gael i bob Aelod a phwy all gael ei dalu i wneud y gwaith hwn ar eu cyfer?*

Mae'r rheolau sy'n ymwneud â'r hyn y mae Aelodau'r Cynulliad yn cael hawlio ar ei gyfer mewn perthynas â phrosiectau ymchwil yn cael eu cynnwys mewn 'Penderfyniad'. Mae Adran 7.11 (Polisi a Chronfa Ymchwil) yn datgan:

> *7.11.1 Caiff Aelod hawlio hyd at £2,000 (gan gynnwys TAW) tuag at y gost o dalu am arbenigedd allanol i gynghori neu i helpu, am gyfnod penodedig, ar dasg neu ddarn o waith penodol ("y gwaith").*
>
> *7.11.2 Rhaid i Aelod sydd am wneud hawliad:*
>
> a) *gyflwyno cynnig ysgrifenedig i dîm Cymorth Busnes yr Aelodau sy'n amlinellu hyd, cost a phwrpas y gwaith gyda digon o*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Buddug.Saer@Cynulliad.Cymru Buddug.Saer@Assembly.Wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

*fanylion i alluogi tîm Cymorth Busnes yr Aelodau i ystyried y cais;*

b) *cael cymeradwyaeth gan dîm Cymorth Busnes yr Aelodau cyn i'r gwaith gychwyn; a*

c) *sicrhau bod yr egwyddorion cymorth ariannol a nodir yn y Penderfyniad hwn yn cael eu bodloni ar bob achlysur, gan gynnwys yr egwyddor na ddylai unrhyw waith ymwneud â gweithgarwch plaid wleidyddol, ond nid yn gyfyngedig i hynny.*

3) *Hoffwn wybod pa Aelodau'r Cynulliad sydd wedi defnyddio'r gronfa hyd yma, a rhestr o'r sefydliadau neu'r unigolion hynny sydd wedi cael eu talu, ynghyd ag enw'r prosiect ymchwil y cawsant eu talu i ymgymryd ag ef.*

Mae'r tabl isod yn rhoi'r manylion yr ydych wedi gofyn amdanynt.

| Blwyddyn | Aelod Cynulliad | Awdur yr Ymchwil | Teitl |
|---|---|---|---|
| 2011 | William Powell | Yr Athro Russell Deacon | Adroddiad Ymchwil Academaidd ar Bolisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| 2012 | Alun Ffred Jones | LG Research | Cynigion Hafren Power ar gyfer Morglawdd Hafren |
| 2012 | Joyce Watson | Sefydliad Bevan | Menywod mewn Cyflogaeth yn Ystradgynlais - Cyfnod 1 |
| 2012 | Mick Antoniw | Prifysgol Morgannwg | Adennill costau GIG wrth drin cleifion sydd wedi dioddef iechyd gwael o ganlyniad i amlygiad i asbestos |
| 2012 | Arweinydd Plaid Cymru | Beaufort Research | Dadansoddiad o Agweddau'r Cyhoedd tuag at feysydd polisi allweddol |
| 2012 | Arweinydd Plaid Cymru | Dr Ian Jenkins | Bancio cyhoeddus yng Nghymru |
| 2012 | Vaughan Gething | Prifysgol Morgannwg | Adennill costau GIG wrth drin cleifion sydd wedi dioddef iechyd gwael o ganlyniad i amlygiad i asbestos |
| 2013 | Elin Jones | LG Research | Ardoll ar ddiodydd llawn siwgr |
| 2013 | Eluned Parrott | Amie Jordan | Prentisiaethau a Busnes yng Nghymru |
| 2013 | Jenny Rathbone | E Mills | Cyfleoedd am Gyllid Ewropeaidd 2014-2020 |
| 2013 | Joyce Watson | Sefydliad Bevan | Menywod mewn Cyflogaeth yn Ystradgynlais - Cyfnod 2 |

| Blwyddyn | Aelod Cynulliad | Awdur yr Ymchwil | Teitl |
|---|---|---|---|
| 2013 | Julie Morgan | Chaminda Seneviratne | Cymuned Sipsiwn a Theithwyr - Y bwlch anfantais sy'n bodoli rhwng y gymuned Sipsiwn a Theithwyr a'r trigolion syn byw mewn "tai go iawn". |
| 2013 | Leanne Wood | Arad Consulting Ltd | Ynni yng Nghymru |
| 2013 | Mick Antoniw | Severn Systems Software | Cynllun ad-drefnu iechyd yn Ne Cymru |
| 2013 | Peter Black | Amie Jordan | Diwygio llywodraeth leol yng Nghymru |
| 2013 | Russell George | MAB Strategy | Arolygon cyfansoddol ac argymhellion:<br>Arolwg busnes - a gynlluniwyd i ddeall heriau presennol busnesau yn yr ardal<br>Arolwg traffig yn y Drenewydd - a gynlluniwyd i ddeall problemau traffig a mannau cyfyng<br>Arolwg Pont Dyfi - a gynlluniwyd i ddeall problemau a theimladau'r gymuned o ran yr atebion hir/byr dymor gorau<br>Arolwg Fferm Wynt - a gynlluniwyd i ddeall lefelau o bryder/cefnogaeth y cyhoedd o ran ffermydd gwynt ar y tir |
| 2014 | Aled Roberts | Family and Childcare Trust | Gofal Plant yng Nghymru |
| 2014 | Byron Davies | Myles Langstone | Llwybrau at waith ar gyfer pobl ifanc |
| 2014 | Elin Jones | Alun Williams | Gwella polisi iechyd meddwl yng Nghymru |
| 2014 | Eluned Parrott | David Boyle Projects Ltd | Ardaloedd Gwella Busnes |
| 2014 | Jocelyn Davies | Chwarae Teg | Sicrhau bod menywod yng Nghymru yn cyrraedd eu potensial |
| 2014 | Kirsty Williams | Prifysgol Abertawe | Gwasanaeth Ambiwlans Cymru - Cymharu systemau ambiwlans Cymru, yr Alban a Lloegr |
| 2014 | Leanne Wood | Helen Taylor | Rhagor o Ddatganoli Llesiant i Gymru |
| 2014 | Llyr Huws Gruffydd | Dr. Selyf Lloyd Morgan | Sut gallwn gynhyrchu mwy o'n bwyd eu hunain mewn ffordd gynaliadwy |

| Blwyddyn | Aelod Cynulliad | Awdur yr Ymchwil | Teitl |
|---|---|---|---|
| 2014 | Peter Black | The Castalian Pool | Diwylliant, y Celfyddydau a Threftadaeth - Ymchwilio i sut orau y gall Llywodraeth Cymru gefnogi'r meysydd hyn |
| 2014 | Russell George | OMB Communications | Arolwg Iechyd – cynlluniwyd i fesur a deall canfyddiadau'r cyhoedd am faterion iechyd yn Sir Drefaldwyn<br>Arolwg Ffermio – cynlluniwyd i ganfod barn y gymuned ffermio yn Sir Drefaldwyn |
| 2014 | William Powell | Alice Hooker Stroud | Targedau Amgylcheddol - cynnig targedau posibl a allai gael eu cynnwys ym Mil amgylcheddol Llywodraeth Cymru |

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan: [http://www.cynulliad.cymru/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx](http://www.cynulliad.cymru/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx). Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliad.cymru/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF